
# Crynodeb o Adroddiad Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## Adolygu Perfformiad y Cyngor: 2013-2014



www.conwy.gov.uk

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Crynodeb o Adroddiad Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

# Adolygu Perfformiad yr Awdurdod 2013 - 2014

**Cynnwys**


| | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Beth mae'r Awdurdod yn ei wneud? | 3 |
| 3 | Beth mae'r gymuned yn ei feddwl o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy? | 5 |
| 4 | Crynodeb o Gynnydd y Cynllun Corfforaethol | 6 |
| 5 | Pa mor dda ydyn ni’n cymharu? | 12 |
| 6 | Crynodeb Ariannol | 15 |
| 7 | Dweud eich Dweud | 17 |
| 8 | Ymhle y gallwch chi gael rhagor o wybodaeth am eich Cyngor? | 18 |


Rydym yn fwy na pharod i ddarparu'r ddogfen hon mewn fformat neu mewn iaith arall

A

Cysylltwch â’r Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol
e-bost: :tgdc@conwy.gov.uk
Ffôn: ☎ 01492 574000

## 1 Cyflwyniad

Dyma grynodeb o Adroddiad Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth gryno am berfformiad y Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 1 Ebrill 2012 hyd 31 Mawrth 2014. Crynodeb yw’r adroddiad o sut mae'r Cyngor wedi perfformio. Mae gwybodaeth fwy manwl i’w chael yn Adroddiad Blynyddol 2013 -2014. Gellir cael copi o’r adroddiad llawn a’r holl fesuryddion perfformiad ar ein gwefan www.conwy.gov.uk/atebolrwydd.

Bob blwyddyn bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn adolygu'r blaenoriaethau yr ydym yn canolbwyntio arnynt er mwyn darparu gwasanaethau da ac effeithlon i ddinasyddion Conwy. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â'r cyhoedd ac yn cael eu hadolygu i asesu eu heffaith ar gydraddoldeb. Mae'n bwysig edrych yn ôl ar berfformiad y Cyngor a sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn gwneud gwahaniaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried yr arbedion heriol o filiynau o bunnoedd y mae angen eu canfod flwyddyn ar ôl blwyddyn. Gobeithiwn fod yr adroddiad hwn yn un llawn gwybodaeth a’i fod yn rhoi trosolwg cytbwys o sut yr ydym wedi gwerthuso ein perfformiad.

## 2 Beth mae'r Awdurdod yn ei wneud – darlun cyflym mewn rhifau

Mae’r Cyngor yn gyfrifol am amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus sydd yn cefnogi bywydau beunyddiol trigolion y Fwrdeistref Sirol a’r rhai sy’n ymweld â hi. Dyma gyflwyno darlun sydyn o’r gwasanaethau amrywiol hyn ac o lefel gyfartalog y galw y mae’n rhaid i ni ei fodloni:

**Ar ddiwrnod arferol:**
- Addysgir dros 16,000 o blant mewn 67 o ysgolion cynradd ac uwchradd.
- Bydd 2,600 o bobl yn ymweld â’n 10 canolfan hamdden a’n pyllau nofio.
- Bydd 14,200 o bobl yn ymweliad â thudalennau gwe'r cyngor.
- Caiff 9,000 o gynwysyddion ailgylchu a 5,000 o finiau domestig eu gwagio.

**Mewn wythnos:**
- Bydd 11,200 o bobl yn ymweld â'n llyfrgelloedd
- Daw 40 o ffurflenni cais am swydd i law.

**Mewn mis:**
- Byddwn yn derbyn 70 o geisiadau cynllunio.
- Caiff 150 o gartrefi help i wneud cais am fudd-daliadau.
- Bydd 3,200 o bobl yn cael cefnogaeth i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

**Mewn blwyddyn:**
- Caiff 29,000 tunnell o ddeunydd a gesglir o ymyl y ffordd ac o safleoedd a chanolfannau ailgylchu (banciau poteli, dillad ayyb) eu hailgylchu a’u compostio.
- Caiff 2,000 o strydoedd eu glanhau.
- Caiff 16,500 o lampau stryd eu cynnal.
- Cesglir bron i 420,000 o daliadau Treth y Cyngor a bron i 17,500 o daliadau trethi busnes.
- Bydd 670,000 o ymwelwyr unigryw yn ymweld â’n gwefan.
- Bydd 250 o blant yn derbyn gofal drwy ein hadran Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Bydd 32,300 o bobl yn dod i weld perfformiadau byw a dangosiadau sinema yn Theatr Colwyn.

- Caiff 300 o berfformiadau eu llwyfannu yn Venue Cymru, yn ogystal â chynnal cynadleddau a digwyddiadau ar gyfer sefydliadau o bob rhan o Brydain; gan ddenu dros 300,000 o ymwelwyr.
- Cynhyrchir £16.5 miliwn mewn budd economaidd a cheir dros 55,000 yn aros y nos mewn gwestai a llety gwely a brecwast yn sgil mynychu digwyddiadau yn Venue Cymru.

**Yr ardal yr ydym yn ei chynnal:**
Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn rheoli 795 hectar o barciau, coetiroedd a mannau agored.

Mae gan y sir arfordir sy'n 75km o hyd ac mae 23km ohono wedi'i amddiffyn yn artiffisial, sef yr hyd mwyaf yng Nghymru sy'n cynrychioli tua 20% o'r holl arfordir sydd wedi'i amddiffyn yn artiffisial yng Nghymru.

Rydym yn cynnal 124km o gefnffyrdd, 119km o brif ffyrdd, 716km o ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd a 837km o ffyrdd di-ddosbarth.

## 3 Beth mae'r gymuned yn ei feddwl o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy?

Bob blwyddyn, bydd sampl gynrychioliadol o 14,500 o bobl ledled Cymru yn cymryd rhan yn Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru. Astudiaeth yw hon o oedolion o bob rhan o Gymru. Mae'r arolwg yn ymdrin ag ystod o bynciau gan ganolbwyntio ar les ac ar farn pobl o wasanaethau cyhoeddus. Gallwch weld yr adroddiadau ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar wefan Llywodraeth Cymru:
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/national-survey/;jsessionid=A14307EDA760D279246A30266D663E90?lang=cy

Mae rhai o'r cwestiynau allweddol sy'n cael eu gofyn i bobl yn ymwneud â pha mor fodlon ydynt â'u hardaloedd lleol a gwasanaethau eu hawdurdodau lleol. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn helpu awdurdodau lleol i asesu eu perfformiad ac i nodi meysydd i'w gwella yn y dyfodol. Mae'r cwestiynau yn canolbwyntio ar foddhad, ar gynnal a chadw'r ardal, ar gyfathrebu ac ar allu pobl i ddylanwadu ar benderfyniadau.

Mae'r canlyniadau ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2013/14 wedi'u hamlinellu isod.

### Gwasanaethau o ansawdd

Mae 64.1% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn darparu gwasanaethau o ansawdd. Hon oedd y drydedd lefel uchaf o foddhad o blith 22 Awdurdod Lleol Cymru. Mae gwasanaethau'n cynnal arolygon boddhad cwsmeriaid yn rheolaidd ac rydym yn gweithio i wella sut yr ydym yn dadansoddi cwynion er mwyn gallu parhau i wella'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu.

### Cynnal a chadw'r ardal

Cytunodd 72.2% nad oes problem sbwriel yn yr ardal leol. Hwn oedd y pumed canlyniad uchaf o blith 22 Awdurdod Lleol Cymru. Cytunodd 86.1% nad oes problem graffiti a fandaliaeth yn yr ardal leol. Hon oedd y chweched lefel uchaf o blith 22 Awdurdod Lleol Cymru. Cafodd Conwy hefyd y canlyniad uchaf erioed yn y mynegai glendid (sy'n mesur pa mor lân yw'r strydoedd).

### Rhoi gwybod i bobl pa mor dda y mae'r Awdurdod yn perfformio

Roedd 40.7% yn teimlo bod Cyngor Conwy'n dda am roi gwybod i bobl pa mor dda y mae'n perfformio. Hon oedd y drydedd lefel uchaf ar ddeg o foddhad o blith 22 Awdurdod Lleol Cymru. Rydym wedi adolygu ein strategaeth gyfathrebu ac wedi gofyn i bob gwasanaeth ganolbwyntio ar roi gwybod i drigolion am eu perfformiad, yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau.

### Y gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau

Roedd 26.8% yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal leol. Hwn oedd y pumed canlyniad uchaf o blith 22 Awdurdod Lleol Cymru. Nododd 44.7% o'r ymatebwyr y byddent yn hoffi cymryd mwy o ran yng ngwaith yr Awdurdod. Mae hwn yn faes pwysig i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Ymgysylltir yn helaeth â chymunedau lleol ynglŷn â datblygiadau arwyddocaol, a chafodd y cynlluniau ardal eu hadolygu a'u hadnewyddu drwy weithio gyda chymunedau i gael gwybod beth y maent ei eisiau yn eu hardal leol. Rydym hefyd yn annog y cyhoedd i gyflwyno pynciau i'w hadolygu yn un o'n pedwar Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Yn amlwg mae hyn yn rhywbeth y mae angen i ni gyfathrebu'n well yn ei gylch a byddwn yn gweithio i wella hyn.

## 4 Crynodeb o Gynnydd y Cynllun Corfforaethol

Mae'r wybodaeth isod yn manylu ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni Amcanion y Cynllun Corfforaethol yn ystod blwyddyn ariannol 2012/13. Wrth drafod y cynnydd, cyfeirir at y Canlyniadau i'r Dinesydd y mae'r amcanion gwella'n eu cefnogi, fel y'u nodir yn y Cynllun Cymunedol Integredig, **Un Conwy 2012 - 2025**.

### Allwedd COG y Camau Gweithredu:

| | |
|---|---|
| Cam gweithredu ddim yn symud ymlaen / meysydd pryder wedi'u codi | Coch |
| Cam gweithredu yn symud ymlaen a dim pryderon wedi'u codi | Oren |
| Cam gweithredu wedi'i gyflawni | Gwyrdd |

### Allwedd COG y Mesuryddion Perfformiad:

| ***O'i gymharu â'r targed a osodwyd:*** | |
|---|---|
| Ddim yn cwrdd â'r targed ac yn is na'r lefel oddefol | Coch |
| Oddi mewn i'r goddefiant er mwyn gweithio tuag at gyflawni'r targed | Oren |
| Cyrhaeddwyd y targed | Gwyrdd |
| Ni osodwyd targed | |
| Mesurydd perfformiad newydd yn 2013/14 | MP Newydd |
| Amherthnasol | Amh |

## 4.1 Trosolwg o Berfformiad Cyflawni Camau Gweithredu a Mesurau Perfformiad y Cynllun Corfforaethol

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad 1 - Mae Pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac mae ganddynt sgiliau** | | | | **Canlyniad 2 – Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel** | | | |
| **A1.1** | Gwyrdd | **M1.1** | Gwyrdd | **A2.1** | Gwyrdd | **M2.1** | Oren |
| **A1.2** | Gwyrdd | **M1.2a** | Gwyrdd | **A2.2** | Oren | **M2.2** | Gwyrdd |
| **A1.3** | Gwyrdd | **M1.2b** | Gwyrdd | **A2.3** | Oren | **M2.3** | Oren |
| **A1.4** | Gwyrdd | **M1.3** | Gwyrdd | **A2.4** | Oren | **M2.4** | Gwyrdd |
| **A1.5** | Oren | **M1.4** | Gwyrdd | | | **M2.5** | Gwyrdd |
| **A1.6** | Gwyrdd | **M1.5** | Oren | | | | |
| **A1.7** | Oren | **M1.6a** | Oren | | | | |
| **A1.8** | Oren | **M1.6b** | Gwyrdd | | | | |
| | | **M1.7** | | | | | |
| | | **M1.8a** | Gwyrdd | | | | |
| | | **M1.8b** | | | | | |
| | | **M1.9** | Oren | | | | |
| | | **M1.9b** | | | | | |
| **Canlyniad 3 – Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas** | | | | **Canlyniad 4 - Mae Pobl yng Nghonwy'n iach ac yn annibynnol** | | | |
| **A3.1** | Oren | **M3.1** | Gwyrdd | **A4.1** | Oren | **M4.1** | Gwyrdd |
| **A3.2** | Oren | **M3.2** | Gwyrdd | **A4.2** | Oren | **M4.2a** | Oren |
| **A3.3** | | **M3.3** | Gwyrdd | **A4.3** | Oren | **M4.2a** | |
| **A3.4** | Gwyrdd | **M3.4a** | (dilëwyd) | **A4.4** | Oren | **M4.3** | Coch |
| **A3.5** | Oren | **M3.4b** | (dilëwyd) | | | **M4.4** | Gwyrdd |
| **A3.6** | Oren | **M3.5** | Coch | | | **M4.5** | Coch |
| **A3.7** | Oren | **M3.6** | Coch | | | | |
| | | **M3.7** | Coch | | | | |
| | | **M3.8** | Gwyrdd | | | | |
| **Canlyniad 5 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir sydd ag economi ffyniannus** | | | | **Canlyniad 6 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy** | | | |
| **A5.1** | Oren | **M5.1a** | Gwyrdd | **A6.1** | Gwyrdd | **M6.1** | Oren |
| **A5.2** | Oren | **M1.5b** | Gwyrdd | **A6.2** | Oren | **M6.2** | Gwyrdd |
| **A5.3** | Oren | **M5.2** | Gwyrdd | **A6.3** | Oren | **M6.3** | Gwyrdd |
| **A5.4** | Oren | **M5.3** | Oren | **A6.4** | Gwyrdd | **M6.4a** | |
| **A5.5** | Oren | **M5.4** | | **A6.5** | Oren | **M6.4b** | |
| **A5.6** | Oren | **M5.6** | | **A6.6** | Oren | **M6.5** | Coch |
| | | **M5.7** | Gwyrdd | | | **M6.6** | Gwyrdd |
| | | | | | | **M6.7** | Oren |
| | | | | | | **M6.8** | Oren |
| **Canlyniad 7 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r Gymraeg yn ffynnu** | | | | **Canlyniad 8 - Mae pobl yng Nghonwy'n cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais** | | | |
| **A7.1** | Oren | **M7.1a** | Gwyrdd | **A8.1** | Gwyrdd | **M8.1** | |
| **A7.2** | Gwyrdd | **M7.1b** | Gwyrdd | **A8.2** | Oren | **M8.2** | Gwyrdd |
| **A7.3** | Gwyrdd | **M7.2** | Gwyrdd | **A8.3** | Oren | **M8.3a** | Gwyrdd |
| | | **M7.3** | Gwyrdd | **A8.4** | Oren | **M8.3b** | Gwyrdd |
| | | **M7.4** | Gwyrdd | **A8.5** | Oren | **M8.3c** | |
| | | **M7.5** | Coch | | | **M8.4** | Gwyrdd |
| | | | | | | **M8.5** | Oren |
| | | | | | | **M8.6** | |
| | | | | | | **M8.7** | Oren |
| **Blaenoriaethau Cyffredinol** | | | | | | | |
| **GA1** | Gwyrdd | **GM 1** | Coch | | | | |
| **GA2** | Oren | | | | | | |
| **GA3** | Gwyrdd | | | | | | |
| **GA4** | Gwyrdd | | | | | | |

**4.2 Crynodeb o gyflawniadau allweddol y Cynllun Corfforaethol**

| ***1) Mae Pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac mae ganddynt sgiliau***<br>***Rydym wedi:*** | ***2) Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel.***<br>***Rydym wedi:*** | ***3) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas.***<br>***Rydym wedi:*** |
|---|---|---|
| 1) cefnogi cyfanswm o 77 o fentrau cymdeithasol.<br>2) cynorthwyo 1,447 o bobl ddiamddiffyn i ennill sgiliau ymarferol i'w symud yn agosach at fyd gwaith.<br>3) darparu 276 o leoliadau profiad gwaith. Mae hyn yn agored i bob oedran a chefndir.<br>4) cynyddu nifer y prentisiaethau modern i 34.<br>5) gwella canlyniadau TGAU i 56.04% A i C yn y pynciau craidd (Cymraeg, Saesneg, Mathemateg)<br>6) cyflwyno llwyfan dysgu 'Moodle' Technoleg Gwybodaeth traws-sirol.<br>7) cefnogi ysgolion i roi technoleg newydd ar waith.<br>8) gweithio gyda 'GwE' y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol newydd i wella safonau ysgolion.<br>9) sefydlu system i fonitro cyrhaeddiad plant er mwyn lleihau nifer y plant sy'n cyrraedd diwedd eu cyrsiau yng Nghyfnod Allweddol 2 ac sy'n methu cyflawni gwaith i safon sydd o fewn eu gallu.<br>10) cwblhau cam 1 o adeiladu ysgol newydd Y Gogarth yn Llandudno.<br>11) adolygu'r pynciau gwyddoniaeth a thechnoleg a gynigir mewn ysgolion a gweld cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n eu dewis. | 1) gweithio gydag ysgolion a chymunedau i godi ymwybyddiaeth am sbwriel.<br>2) cael y perfformiad gorau mewn glendid ar ein strydoedd ers cyflwyno'r mesurydd yn 2007<br>3) helpu i sefydlu Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru i oruchwylio diogelwch cymunedol.<br>4) bod yn rhan o gynllun peilot y bwrdd diogelu rhanbarthol ac rydym wedi sefydlu panel diogelu corfforaethol.<br>5) cyflwyno gwasanaeth cefnogi teuluoedd integredig i ganolbwyntio ar faterion cyffuriau ac alcohol. Bydd y tîm yn gweithio gyda theuluoedd er mwyn atal plant rhag mynd i ofal.<br>6) wedi cynnal 12 diwrnod gweithredu amgylcheddol ar draws y Sir. | 1) dechrau Partneriaeth Datrysiadau Tai Conwy. Mae hyn yn cynnwys siop un stop ar gyfer dewisiadau tai yn 41 Ffordd Conwy, Bae Colwyn, ac wedi datblygu asiantaeth gosod tai cymdeithasol.<br>2) parhau i symud ymlaen gyda'r llwybr mynediad sengl at dai a chymeradwyo polisi dyrannu cyffredin.<br>3) mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol sef y cynllun sirol ar gyfer cynllunio defnydd tir.<br>4) cyflwyno'r 3ydd cynllun trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth er mwyn gwella safonau tai.<br>5) cynyddu nifer y cartrefi gwag sy'n cael eu hadfer fel bod pobl yn byw ynddynt i 41 eleni.<br>6) cwblhau 'cam 1b' o'r gwaith i amddiffyn yr arfordir ym Mae Colwyn.<br>7) cynyddu nifer yr aelwydydd digartref sydd wedi eu hailsefydlu, a nifer yr unedau o dai fforddiadwy sydd wedi eu darparu yn ystod y flwyddyn<br>8) cynyddu % yr aelwydydd oedd yn wynebu'r posibilrwydd o fod yn ddigartref, lle cafodd digartrefedd ei atal am o leiaf 6 mis.<br>9) cynyddu nifer y cartrefi a gafodd eu cefnogi i wella effeithlonrwydd ynni. |

| **4) Mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn annibynnol**<br>**Rydym wedi:** | **5) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir sydd ag economi ffyniannus**<br>**Rydym wedi:** | **6) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy**<br>**Rydym wedi:** |
|---|---|---|
| 1. cefnogi 68.2% o bobl i aros yn annibynnol yn dilyn rhaglen gofal galluogi 6 wythnos.<br>2. diwygio amserlen gwersi nofio i leihau'r rhestr aros<br>3. parhau i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon, gan gynyddu nifer y plant 11-16 mlwydd oed o 53% i 58%.<br>4. penodi swyddog gofalwyr er mwyn cefnogi gofalwyr di-dâl.<br>5. sefydlu un pwynt mynediad at brosiect i'w gwneud yn haws i gael cefnogaeth gofal cymdeithasol.<br>6. cwblhau asesiad anghenion cludiant gwledig sydd ag argymhellion i fynd i'r afael â fforddiadwyedd, hygyrchedd, derbynioldeb ac ymwybyddiaeth. Bydd yr argymhellion yn cael eu datblygu fel rhan o brosiect cludiant corfforaethol.<br>7. gweithio i gynyddu nifer y gofalwyr y gwyddys amdanynt, a byddwn yn parhau i wneud hyn, er mwyn cyrraedd ein targedau<br>8. gweithio i gynyddu'r % o blant ysgolion cynradd sy'n gallu nofio i safon cymwys, a byddwn yn parhau i wneud hyn, er mwyn cyrraedd ein targedau. | 1. cefnogi 7 digwyddiad cenedlaethol / rhyngwladol o bwys yn y sir, gan gynnwys dau ddigwyddiad newydd - Pencampwriaeth Rhedeg Llwybr y Byd a Thaith Prydain.<br>2. cefnogi 26 o ddigwyddiadau cymunedol yn y sir. Mae pob digwyddiad o bwys a phob digwyddiad cymunedol yn cefnogi'r economi leol ac mae ymchwil yn dangos y ceir adenillion o £12.60 i'r economi leol am bob £1 a fuddsoddir.<br>3. mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol a fydd yn cydlynu datblygiad strategol yn y sir.<br>4. drafftio strategaeth gaffael gorfforaethol ac wedi dyfarnu 43.3% o'r contractau y mae'r cyngor wedi'u tendro i fusnesau lleol.<br>5. cynnal nifer o weithdai busnes a chefnogi 235 o fusnesau i wneud cais am gontractau, hyfforddiant neu gyllid<br>6. creu / rhagweld 515 o swyddi<br>7. sefydlu Bwrdd Creu Cymunedau Cryf a Mynd i'r Afael â Thlodi i roi sylw i effeithiau tlodi, a'u cefnogi. Bu gostyngiad bychan yng nghanran y plant sy'n byw mewn tlodi yn y sir o 19.8% i 19.4%<br>8. gweithio gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i annog mewnfuddsoddi.<br>9. adolygu a diweddaru'r cynllun rheoli cyrchfan. | 1. cael 9 baner werdd i'n parciau, 2 wobr Cymru yn ei Blodau a 4 gwobr cymdogaeth Cymdeithas Arddwriaethol Frenhinol<br>2. ennill gwobrau am safon 10 o'n traethau<br>3. cyflawni Lefel 5 Y Ddraig Werdd sef lefel uchaf y wobr rheolaeth amgylcheddol<br>4. adolygu ein dull o leihau allyriadau carbon. Mae gennym lawer o waith i'w wneud er mwyn cyrraedd ein targedau, ond dylai'r adolygiad wella ein dull gweithredu.<br>5. cael ein canlyniad uchaf erioed yn y mynegai glendid ar gyfer ein strydoedd.<br>6. cynyddu nifer yr ysgolion sydd wedi ennill Gwobr Arian Ysgolion Eco.<br>7. cyflwyno prosesau busnes newydd i leihau ein defnydd o bapur – e.e. slipiau cyflog electronig, archebu ar-lein ar gyfer dosbarthiadau ffitrwydd, cynlluniau debyd uniongyrchol ar gyfer gwersi nofio, ac e dendro am gontractau. |

| 7) ***Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r Gymraeg yn ffynnu*** <br><br> ***Rydym wedi:*** | 8) ***Mae pobl yng Nghonwy'n cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais*** <br><br> ***Rydym wedi:*** | ***Cyffredinol:*** <br> ***Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n Effeithlon ac wedi'i reoli'n dda*** <br> ***Rydym wedi:*** |
|---|---|---|
| 1. datblygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.<br>2. annog staff i siarad ac ymarfer eu Cymraeg drwy wisgo bathodynnau a thenynnau gwddf, a defnyddio llofnodion e-bost Cymraeg, sy'n dweud eu bod yn siarad Cymraeg.<br>3. lansio tudalen mewnrwyd ar gyfer staff i'w cyfeirio at wefannau Cymraeg ac apiau i'w helpu gyda dysgu Cymraeg.<br>4. ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a hyfforddiant gofal cwsmer dwyieithog.<br>5. cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 4 neu uwch mewn Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 2<br>6. cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 5 neu uwch mewn Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 2<br>7. cynyddu sawl digwyddiad mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn eu cynnal i hyrwyddo diwylliant Cymru<br>8. cynyddu nifer yr ysgolion cynradd sy'n dysgu mwy na 25% o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg<br>9. lansio cynllun twristiaeth treftadaeth 'Tywysogion Gwynedd' ym Meddgelert a'r Porth at Dywysogion Gwynedd yng Nghonwy.<br>10. cynnal yr Helfa Gelf, sef digwyddiad blynyddol pan fo stiwdios celf ledled Gogledd Cymru yn agor eu drysau. | 1. datblygu a chymeradwyo strategaeth ymgysylltu newydd<br>2. datblygu cronfa ddata ymgynghori i gofnodi a rhannu barn cwsmeriaid ar weithgareddau ymgysylltu<br>3. cymeradwyo Siarter Cwsmeriaid a Strategaeth Cynnwys y Gymuned.<br>4. cael ein hachredu eto â Safon Rhagoriaeth Cwsmeriaid ar gyfer Gwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau a'r Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau.<br>5. dechrau darlledu rhai o gyfarfodydd y Cyngor ar y we (gwe-ddarlledu).<br>6. gweithio gyda chymunedau i adolygu ac ail-ddatblygu'r 5 cynllun ardal yn 1 cynllun ardal.<br>7. cwblhau ail flwyddyn y cynllun cydraddoldeb strategol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.<br>8. ymdrin yn llwyddiannus â 92% o'n cwynion yn ystod y cam cyntaf er mwyn delio â phryderon mewn modd amserol.<br>9. prynu system rheoli cynnwys newydd ar gyfer ein gwefan, er mwyn i ni uwchraddio'r safle a sicrhau ei fod yn gydnaws ag ystod o declynnau. | 1. cyflawni'r targed arbedion o £5.157 miliwn.<br>2. sefydlu rhaglen foderneiddio i adolygu gofod ein swyddfeydd, polisïau adnoddau dynol, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, prosesau busnes a'n hymagwedd at wasanaeth cwsmeriaid.<br>3. parhau â'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau rheng flaen yng Ngwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg<br>4. adolygu effaith economaidd Parc Eirias<br>5. diwygio oriau agor y llyfrgelloedd a llwybrau teithio'r llyfrgell i'r cartref ac wedi datblygu rhestr fer o leoliadau ar gyfer y llyfrgell ardal newydd.<br>6. llwyddo i gael £12 miliwn o arian gan gynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, Llywodraeth Cymru i hyrwyddo adfywiad Bae Colwyn ymhellach.<br>7. defnyddio cronfeydd buddion cymunedol adran 106 y drefn gynllunio i gefnogi adfywiad Cyffordd Llandudno.<br>8. datblygu cynllun gweithredu i adfywio Llanrwst.<br>9. cyfarwyddo gwasanaethau i wella % yr adolygiadau datblygu perfformiad a gynhelir. |

**4.3 Beth sydd angen i ni ei wella / ei ddatblygu?**

Rydym yn falch iawn o'r llwyddiannau hyn, ond mae hunanwerthuso hefyd yn golygu ystyried a ydym yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r gymuned gan ystyried, nid yn unig y pethau sydd wedi mynd yn dda, ond yr agweddau hynny y mae angen i ni eu gwella neu barhau i'w datblygu. O'r herwydd, byddwn hefyd yn anelu at ddatblygu gwaith yn y meysydd canlynol:


- Gweithredu'r 6 chynnig ar gyfer gwella a nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn eu hasesiad corfforaethol o'r Cyngor.
- Gweithio ar y cyd i gefnogi cymunedau i fod yn fwy gwydn ac i fynd i'r afael â thlodi.
- Cwblhau'r gwaith o adolygu ein Rheolau Sefydlog Contractau ac uchafu'r defnydd a wneir o gymalau budd cymdeithasol a chymunedol.
- Gweithredu rhaglen gwerth £12 miliwn i adfywio Bae Colwyn dros y tair blynedd nesaf, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru o dan y cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.
- Parhau i weithio i wella cyrhaeddiad addysgol a pharhau i gynyddu nifer y prentisiaethau.
- Cwblhau'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Gelfyddydol gorfforaethol i ddarparu cyfeiriad strategol ac i weithio gyda sefydliadau celfyddydol o fewn y Sir.
- Parhau i drawsnewid Gwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Moderneiddio Ysgolion a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn darparu gwell gwasanaethau i drigolion ac arbedion sylweddol i'r Awdurdod.
- Parhau i ddatblygu'r ffrydiau gwaith o dan y Bwrdd Moderneiddio sy'n cynnwys datblygu canolbwynt swyddfa newydd ym Mae Colwyn, er mwyn darparu gwasanaethau rheng flaen modern a hygyrch, lleihau faint o asedau'r cyngor sydd wedi dyddio a chefnogi adfywiad Bae Colwyn.
- Parhau i adfer eiddo gwag at ddefnydd unwaith eto a mynd i'r afael â safleoedd sy'n dolur llygad.
- Gweithredu'r Cynllun Rheoli Carbon i ostwng allyriadau carbon.
- Parhau â'r gwaith o wella amddiffynfeydd llifogydd.
- Mae angen gwella sut yr ydym yn dadansoddi ac yn cyflwyno adborth cymunedol a gwella sut yr ydym yn cofnodi canmoliaeth
- Diweddaru polisi hyfforddiant a diogelu ar gyfer recriwtio staff.

## 5 Pa mor dda ydym yn Cymharu?

Yn unol â chanllawiau Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, Llywodraeth Cymru mae'n ofynnol i'r Cyngor 'ganfod angen' a `gwella gwasanaethau'n barhaus'. Er mwyn asesu pa mor dda y gwnawn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod nifer o fesuryddion perfformiad statudol sy'n ymwneud â meysydd polisi allweddol e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a'r Amgylchedd. Yna caiff lefel y perfformiad ei gymharu â thargedau a osodwyd gan y Cyngor.

Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o'n perfformiad yn ôl mesuryddion cenedlaethol pan ellir gwneud cymhariaeth, a hefyd, yn darparu trosolwg o sut yr ydym wedi perfformio yn ôl y targedau a osodwyd yn y Cynllun Corfforaethol, a hefyd yn rhoi crynodeb o berfformiad yn erbyn mesuryddion cenedlaethol a mesuryddion y Cynllun Corfforaethol gogyfer â'r canlyniadau i'r dinesydd.


### 5.1 Cyflawni ein Targedau Cenedlaethol




Mae'r siart cylch ar y chwith yn dangos perfformiad diwedd blwyddyn 2013/14 ar gyfer y mesuryddion perfformiad statudol o gymharu â'r targedau y mae'r Cyngor wedi eu gosod iddo'i hun ar ddechrau'r flwyddyn.

Mae 43 o'r 44 Dangosydd Strategol Cenedlaethol a phob un o'r Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus wedi cael eu cymharu ledled Cymru.


### 5.2 Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru?




Mae llawer iawn o'n mesuryddion statudol yn gosod ein perfformiad yn chwarter uchaf neu yn chwarter canol perfformiad awdurdodau lleol Cymru. Mae'r canlyniadau yn welliant ar rai'r llynedd, mae perfformiad Chwartel Uchaf wedi gwella o 11 i 15, mae'r Cyfartaledd wedi gwella o 26 i 24, a'r isaf o 7 i 4. Rydym yn gweithio i wella'r dangosyddion sydd yn chwarter isaf perfformiad Cymru ac mae cynlluniau gweithredu yn eu lle.


**5.3 Cyflawni targedau ein Canlyniadau**


Mae'r siartiau isod yn dangos sut yr ydym wedi perfformio yn erbyn y canlyniadau i'r dinesydd yn y Cynllun Corfforaethol, gan edrych ar fesuryddion y Cynllun Corfforaethol, ond hefyd ar Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol a Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, sy'n ymwneud â'r canlyniadau i'r dinesydd. Mae pob siart yn dangos perfformiad yn ôl nifer a chanran y mesuryddion sydd naill ai heb eu cwrdd, sy'n mynd rhagddynt o fewn y goddefiant, neu sydd wedi cyrraedd y targed.














Canlyniad 7: Treftadaeth, diwylliant a'r Gymraeg
1
14%
1
14%
5
72%


Canlyniad 8: Cael gwybodaeth, cael eu cynnwys a chael llais
2
25%
1
12%
7
63%

**6 Crynodeb Ariannol**


Fel corff sy'n atebol i'r cyhoedd, rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sicrhau gwerth am arian ac yn ystod 13/14 roeddem yma y codwyd y drydedd ffi isaf ar gyfer Band D Treth y Cyngor yng Nghymru. Roedd setliad 2013/14 yn cynnig cryn her, ac roedd yn cynnwys toriad cyllid mewn termau real o ganlyniad uniongyrchol i'r sefyllfa economaidd, ond gyda mesurau wedi'u cynnwys i amddiffyn cyllidebau Ysgolion. Canlyniad hyn oedd bod ein rhagolwg gwario'n uwch na'r gyllideb a oedd ar gael ac felly roedd angen canfod arbedion o £5.157 miliwn er mwyn mantoli'r gyllideb. Gwnaethpwyd yr arbedion drwy gyfrwng nifer o fentrau, gan gynnwys annog pobl i ddefnyddio taliadau uniongyrchol o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, creu incwm ychwanegol a nifer o ymarferion i ail-fodelu gwasanaethau a lwyddodd i gyflawni arbedion staffio.  Mae'r tabl isod yn dangos sut y gwariwyd ein cyllideb yn 2013/14 ac o ble y daeth yr arian (incwm). Roedd y cynnydd yn y gyllideb o 2012/13 i 2013/14 yn adlewyrchu trosglwyddo Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor o ofal Llywodraeth Ganolog i ofal Awdurdodau Lleol fel rhan o Ddiwygio'r Gyfundrefn Les, a oedd yn £8.276 miliwn, ac ynghyd â chyllid pellach daeth â chyfanswm o £9 miliwn o gyllideb ychwanegol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn 2013/14.

**Sut y caiff yr arian ei wario**

| 2012/13 Gwir Gost Net £'000 | Gwasanaeth | 2013/14 Amcangyfrif Diwygiedig £'000 | 2013/14 Gwir Gost Net £'000 |
|---|---|---|---|
| 88,627 | Addysg | 91,861 | 91,857 |
| 38,621 | Gwasanaethau Cymdeithasol | 41,803 | 41,803 |
| 24,184 | Diwylliant, yr Amgylchedd a Chynllunio | 23,654 | 23,441 |
| 7,449 | Priffyrdd, Ffyrdd a Chludiant | 6,993 | 6,864 |
| 2,548 | Tai | 2,730 | 2,730 |
| 0 | Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor | 8,279 | 8,276 |
| 10,080 | Cyllid cyfalaf | 10,611 | 10,309 |
| 5,763 | Ardollau | 5,792 | 5,770 |
| 10,569 | Gwasanaethau Eraill | 11,835 | 12,508 |
| **187,841** | **CYFANSWM GWASANAETHAU** | **203,558** | **203,558** |

**Sut y caiff yr arian ei wario**

| 2012/13 Gwir Gost Net £'000 | Gwasanaeth | 2013/14 Amcangyfrif o Gost Net £'000 | 2013/14 Gwir Gost Net £'000 |
|---|---|---|---|
| 88,627 | Addysg | 91,861 | 91,857 |
| 38,621 | Gwasanaethau Cymdeithasol | 41,803 | 41,803 |
| 24,184 | Diwylliant, yr Amgylchedd a Chynllunio | 23,654 | 23,441 |
| 7,449 | Priffyrdd, Ffyrdd a Chludiant | 6,993 | 6,864 |
| 2,548 | Tai | 2,730 | 2,730 |
| 0 | Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor | 9,070 | 9,067 |
| 26,412 | Gwasanaethau Eraill | 28,238 | 28,587 |
| **187,841** | **CYFANSWM GWASANAETHAU** | **204,349** | **204,349** |




**O ble daw'r arian**

| 2012/13 £'000 | Ffynhonnell | 2013/14 £'000 |
|---|---|---|
| 113,351 | Grant Cynnal Refeniw – gan Lywodraeth Cymru | 121,703 |
| 30,640 | Cyfraniad o'r Gronfa Trethi Annomestig – gan Lywodraeth Cymru | 36,466 |
| 43,850 | Talwyd gan Drethdalwyr y Cyngor | 45,389 |
| **187,841** | **CYFANSWM CYLLID** | **203,558** |
| **(3,005)** | **BALANSAU (Dygwyd Ymlaen)** | **(2,979)** |
| **(2,979)** | **BALANSAU (Cariwyd Drosodd)** | **(4,466)** |

**Crynodeb o Wariant Cyfalaf**

| 2012/13 Gwariant £'000 | Gwasanaeth | 2013/14 Gwariant £'000 |
|---|---|---|
| 6,552 | Addysg | 13,291 |
| 608 | Gwasanaethau Cymdeithasol | 254 |
| 12,908 | Diwylliant, yr Amgylchedd a Chynllunio | 17,425 |
| 4,718 | Priffyrdd, Ffyrdd a Chludiant | 4,059 |
| 1,515 | Tai'r Sector Preifat | 1,307 |
| 2,104 | Gwasanaethau Eraill | 2,564 |
| 23 | Contractau Argadwedig Tai | 0 |
| **28,428** | **CYFANSWM GWASANAETHAU** | **38,900** |

## 7 Dweud eich Dweud

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ymrwymo i wella ein gwasanaethau ac mae'n bwysig ein bod ni'n gwrando ar yr hyn sydd gennych chi, y gymuned, i'w ddweud. Mae croeso i chi awgrymu gwelliant neu wneud sylw i'r Cyngor ei ystyried ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, felly rhowch wybod i ni.

Cysylltwch â ni:

- Os oes gennych unrhyw sylwadau neu ymholiadau am gynnwys yr Adroddiad Blynyddol;
- Os hoffech argymell amcanion gwella newydd y dylai'r Cyngor eu hystyried;
- Neu os hoffech gopi o Gynllun Corfforaethol 2012 – 2017, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol neu'r Adroddiad Blynyddol.

| | |
|---|---|
| E-bost: | **tgdc@conwy.gov.uk** |
| Ysgrifennwch at | **Y Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol**<br>**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**<br>**Bodlondeb**<br>**Conwy**<br>**LL32 8DU** |
| Rhif Ffôn | 01492 574000 |
| Gwasanaeth Cyfnewid Testun BT | Gall cwsmeriaid sydd â nam ar y clyw neu nam ar y lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu 18001 cyn y rhif y mae arnynt ei angen. |

Caiff yr Adroddiad Blynyddol hwn, y Cynllun Corfforaethol, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru oll eu cyhoeddi ar ein gwefan yn Gymraeg ac yn Saesneg. http://www.conwy.gov.uk/cynlluncorfforaethol neu http://www.conwy.gov.uk/atebolrwydd.

Mae modd i chi hefyd weld yr Adroddiadau yn defnyddio un o'r cyfrifiaduron sydd at ddefnydd y cyhoedd, yn rhad ac am ddim, ym mhob Llyfrgell yn y Sir ac wrth y dderbynfa ym Modlondeb ac wrth y dderbynfa yn y Swyddfeydd Dinesig.

Gellir darparu copïau o'r Adroddiad Blynyddol mewn Braille neu mewn print bras, neu ar gryno ddisg clywedol. Ffoniwch 01492 574000 i drefnu cael copi.

Er mwyn bod yn gynaliadwy ac i leihau costau argraffu, mae nifer gyfyngedig o gopïau papur o'r Adroddiad Blynyddol ar gael yn y lleoliadau canlynol:

| | |
|---|---|
| **Llyfrgelloedd y Sir** | **Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn** |
| **Llyfrgell Deithiol** | **Adeiladau'r Llywodraeth, Dinerth Road, Bae Colwyn** |
| **Gwasanaeth i Bobl Sy'n Gaeth i'w Tai** | **Swyddfeydd Bron y Nant, Dinerth Road, Bae Colwyn** |
| **Bodlondeb, Conwy** | **Swyddfeydd y Cyngor, Mochdre** |
| **Neuadd y Dref, Llandudno** | **Glasdir, Llanrwst** |
| **Yr Heath, Llanfairfechan** | |

Gellir gwneud cais am gopi papur drwy ffonio 01492 574000.

**8 Ymhle y gallwch gael rhagor o wybodaeth am eich Cyngor?**

| | |
|---|---|
| Ar ein gwefan | www.conwy.gov.uk |
| Rhwydweithiau Cymdeithasol | Gallwch ein dilyn ar Twitter ac ar Facebook |
| 'Un Conwy' 2012 – 2025 - Cynllun integredig Bwrdeistref Sirol Conwy | http://www.conwy.gov.uk/unconwy |
| Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2012 - 2017 ac Adroddiadau Perfformiad chwe-misol | http://www.conwy.gov.uk/cynlluncorfforaethol |
| Mae Uned Data Llywodraeth Leol yn casglu, yn cyflwyno ac yn cymharu data'r Fframwaith Mesur Perfformiad Cenedlaethol ar gyfer pob Cyngor yng Nghymru. Mae adroddiad mesur perfformiad sy'n manylu ar y cynnydd a wnaed yng Nghonwy dros nifer o flynyddoedd i'w weld ar ein gwefan: | www.lgdu-wales.gov.uk<br>www.mylocalcouncil.info<br>http://www.conwy.gov.uk/atebolrwydd |
| **Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn arolygu perfformiad pob Awdurdod Lleol yng Nghymru.** Mae adroddiadau archwilio cenedlaethol a rhai am gynghorau penodol i'w gweld ar: | www.wao.gov.uk/cy/ |
| **Mae Estyn yn arolygu pob ysgol gynradd, pob ysgol uwchradd a phob Awdurdod Addysg Lleol ledled Cymru.** Mae adroddiadau pob arolwg i'w gweld ar: | www.estyn.co.uk |
| Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn arolygu ansawdd sefydliadau gofal cymdeithasol ac ansawdd rhyw gymaint o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar y Sir. Mae adroddiadau pob arolwg i'w gweld ar: | www.aggcc.org.uk |